

Sgan uwchsain o'ch ffistwla

Beth yw ffistwla?

Pan fyddwch chi'n cael hemodialysis, mae angen i ni allu cymryd gwaed o ran o'ch corff a'i ddychwelyd ar ôl iddo gael ei hidlo drwy'r peiriant dialysis. Mae ffistwla rhydweli-wythiennol yn cael ei greu ar gyfer hyn. Dyma le mae'r rhydweli a'r wythïen wedi'u cysylltu i gynyddu'r llif gwaed yn y wythïen. Mae hyn yn gwneud y wythïen yn fwy ac yn gryfach sy'n helpu gyda mewnosod nodwydd dro ar ôl tro yn ystod y dialysis. Efallai bod gennych grafftiad yn hytrach na ffistwla.

Gall sgan uwchsain o'ch ffistwla hefyd gael ei alw'n sgan dwplecs neu Doppler. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'r ffistwla. Mae'n ffordd ddiogel ac effeithiol o asesu llif y gwaed drwy'r ffistwla a gwirio a yw'n gweithio'n iawn. Mae'r prawf hwn yn ddi-boen ac nid yw'n defnyddio unrhyw ymbelydredd. Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r sgan.

Pam ydw i'n cael y sgan hwn?

Gofynnwyd i chi gael y sgan hwn naill ai i asesu cyflwr eich ffistwla neu oherwydd efallai eich bod wedi cael rhai problemau yn ystod dialysis.

Sut mae sgan uwchsain o'r ffistwla yn cael ei gyflawni?

Bydd gwyddonydd clinigol (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Os yw'r ffistwla ar eich braich, gofynnir i chi dynnu unrhyw beth i ffwrdd a



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

dangos yr ardal honno. Efallai y bydd y goleuadau'n cael eu gostwng fel bod y gwyddonydd yn gallu gweld y sgrin yn well. Os oes gennych grafftiad yn eich coesau, bydd angen mynediad i'r ardal honno. Bydd hancesi papur cael eu defnyddio i ddiogelu dillad a bydd eich urddas yn cael ei gynnal drwy gydol y broses.

Bydd y sgan yn cael ei gyflawni gyda chi'n eistedd gyda'ch braich wedi'i gosod ar glustog. Byddwch yn gorwedd i lawr os yw eich grafftiad yn eich coes. Rhoddir jel ar yr ardal a bydd y chwiliedydd uwchsain yn symud ar hyd y ffistwla fel y gall y gwyddonydd asesu'r llif gwaed. Gall y sgan gymryd hyd at 30 munud.


[Beth sy'n digwydd nesaf?](#)

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau. Os ydych yn cael y sgan yn y clinig, efallai y gofynnir i chi weld y nyrs neu'r meddyg yn dilyn eich sgan i drafod y canlyniadau. Os yw'r gwyddonydd yn hapus gyda'r sgan, yna byddwch yn gallu mynd adref ac ni fydd angen i chi weld unrhyw un arall ar yr ymweliad hwn.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board